Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Llywodraeth Cymru, 12 Tachwedd 2021

**yn bresennol:**
Andrew Goodall
Meena Upadhyaya
Gareth Lynn
Ellen Donovan
Andrew Slade
Reg Kilpatrick
Tracey Burke
Des Clifford
Judith Paget
David Richards
Andrew Jeffreys
Peter Kennedy
Natalie Pearson
Gawain Evans
Helen Lentle
Charlotte Thomas

**Yn mynychu:**
Catrin Sully
Claire Bushell
Claire Bennett
Usha Ladwa-Thomas
Gemma Humphreys
Amy Jones

**Ysgrifenyddiaeth:**
Charmain Watts

**Ymddiheuriadau:**
Dim

## 1. Croeso/ Materion Presennol

1.1 Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol Judith Paget i'w Bwrdd cyntaf yn Llywodraeth Cymru. Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol Charlie Thomas hefyd. Hwn fydd cyfarfod olaf aelodau presennol o'r Bwrdd Cysgodol gan fod y Bwrdd Cysgodol newydd wedi cael ei sefydlu a bydd yn cyfarfod ar 15 Rhagfyr. Darperir diweddariad o dan eitem 3.

1.2 Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i'r tri aelod o'r Bwrdd Cysgodol am eu hadborth a'u cyfraniad dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Bwrdd wedi ei chael yn werthfawr iawn.

1.3 Gofynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol i aelodau'r bwrdd a oeddent yn fodlon ar gofnodion y cyfarfod diwethaf. Dylid bwydo unrhyw sylwadau a/neu ddiweddariadau yn ôl i'r ysgrifenyddiaeth cyn iddynt gael eu cyhoeddi yr wythnos nesaf.

1.4 Amlinellodd yr Ysgrifennydd Parhaol y newidiadau o fewn y strwythurau adrodd corfforaethol, a fydd yn cynnwys newidiadau i agenda'r Pwyllgor Gweithredol (ExCo), ac i'r Bwrdd gyda chynnydd ar y Rhaglen Lywodraethu'n dod yn eitem arferol ynghyd â chyflawni gweithredol.

1.5 Bydd y newid mewn strwythurau hefyd yn defnyddio mewnbwn y Cyfarwyddwyr Anweithredol, gan adeiladu ar sgyrsiau diweddar y Bwrdd a'u ffocws ar nifer o feysydd a nodwyd wrth drafod â'r Prif Weinidog. Croesawodd y Bwrdd y strwythurau a'r cylch adrodd corfforaethol newydd.

1.6 Rhoddodd Judith Paget yr wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau diweddaraf o ran Covid-19, a oedd yn canolbwyntio ar niferoedd Covid-19 yng Nghymru, y sefyllfa mewn ysbytai, gofal dwys a'r rhaglenni brechu a brechiadau atgyfnerthu. Roedd diweddariad Reg Kilpatrick ar y cylch adolygu 21 diwrnod yn canolbwyntio ar lefel rhybudd Covid-19 ac roedd yr adolygiad a gynlluniwyd ar gyfer dechrau mis Rhagfyr yn canolbwyntio ar y Nadolig.

## 2. Cyflawni'r Rhaglen Lywodraethu.

2.1 Cyflwynodd Catrin Sully bapur a roes yr wybodaeth ddiweddaraf am ymwreiddio'r Rhaglen Lywodraethu.

2.2 Esboniodd Catrin fod Y Rhaglen Lywodraethu wedi'i hymwreiddio yn y broses gyllidebol aml-flwyddyn a'i bod hefyd yn flaenoriaeth yn yr ystyriaethau presennol ar gyfer blwyddyn 2 a 3 o'r Rhaglen Ddeddfwriaethol. Mae Adroddiad cyntaf yr Offeryn Adrodd am Wybodaeth Busnes (BIRT) cyntaf wedi'i gynhyrchu sydd wedi'i boblogi gan berchnogion gweithredu. Mae gwaith datblygu pellach yn cael ei wneud i ganiatáu i gerrig milltir gael eu hadrodd drwy BIRT.

2.3 Dywedodd Catrin mai'r camau nesaf fydd sefydlu Is-bwyllgor Cabinet y Rhaglen Lywodraethu a fydd yn darparu goruchwyliaeth strategol ynghyd â chyflwyno strwythur llywodraethu trylwyr. Gofynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod y Bwrdd yn cael ei gynnwys yn y strwythur llywodraethu er mwyn rhoi sicrwydd a her i gefnogi'r gwaith cyflawni.

2.4 Tynnodd Cyfarwyddwyr Anweithredol sylw at bwysigrwydd cefnogi BIRT gan arweinwyr y sefydliad er mwyn annog yr holl staff i'w ddefnyddio. Tynnodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol sylw hefyd at bwysigrwydd blaenoriaethu er mwyn sicrhau bod y meysydd allweddol yn cael eu cyflawni.

2.5 Hysbysodd y Cyfarwyddwyr Cyffredinol y Bwrdd hefyd am ddarnau sylweddol o waith yn eu hardaloedd gan gynnwys Newid yn yr Hinsawdd, Diwygio'r Dreth Gyngor, Diwygio Etholiadol, datrys triniaethau sydd wedi'u gohirio, ailsefydlu Gweithrediaeth y GIG, digartrefedd a Diwygio Addysg.

2.6 Yn amodol ar gytundeb posibl gan Blaid Cymru, cydnabu'r Bwrdd y dylem bennu'r egwyddor o ddiwygio'r Rhaglen Lywodraethu yn unol â hynny.

## 3. Diweddariad am Amrywiaeth a Chynhwysiant a Chydraddoldeb Hiliol

3.1 Rhoddodd Claire Bennett a Usha Ladwa-Thomas yr wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (REAP) a gofynnwyd i'r Bwrdd ystyried maint y newid y mae ei angen i ymgorffori dull gweithredu gwrth-hiliol yn Llywodraeth Cymru. Rhoddodd Andrew Jeffreys yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am gynnydd Cynllun Cyflawni 2021 a gofynnodd am safbwyntiau ar Gynllun 2022.

3.2 Tynnodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol sylw at y ffaith bod mynd i'r afael ag ymwrthedd i newid yn anodd ac yn gofyn am gamau lluosog, ac addysg yw'r cyntaf o'r rhain. Gwnaethant dynnu sylw hefyd at fentora o chwith sy'n ychwanegu gwerth ac sy'n galluogi newid i hidlo i lawr drwy'r sefydliad. Mae mentora o chwith wedi bod ar waith ers pum mlynedd.

3.3 Nododd y Bwrdd fod cyfle, gyda'r bwriad i adnewyddu fframweithiau polisi a'r rhaglen dysgu gallu polisi, i ymgorffori gwrth-hiliaeth a chynhwysiant yn fwy cyffredinol wrth wraidd ein safonau llunio polisïau.

3.4 Er bod polisïau Adnoddau Dynol, addasiadau strwythurol ac arweinyddiaeth yn gwbl allweddol i greu sefydliad gwrth-hiliol, nododd y Bwrdd fod angen inni fod yn llawer mwy gweithgar wrth ddweud wrth ein cydweithwyr yn glir iawn pa fath o sefydliad yr ydym yn anelu at fod.

3.5 Tynnodd y Bwrdd sylw at ddifrifoldeb a phwysigrwydd y gwaith hwn a chytunodd y dylai Llywodraeth Cymru fod yn sefydliad e sy'n esiampl i eraill o ran bod yn sefydliad gwrth-hiliol.

3.6 Darparwyd diweddariad ar y Bwrdd Cysgodol a drafodwyd yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd. Bydd y Bwrdd Cysgodol yn cyfarfod am y tro cyntaf ar

15 Rhagfyr 2021 a chytunodd aelodau'r Bwrdd i fentora aelodau'r Bwrdd Cysgodol mewn perthynas ‘fentora cydfuddianno’l.

Nododd y Bwrdd y canlynol:

- Y dadansoddiad o gefndir economaidd-gymdeithasol staff Llywodraeth Cymru (atodiad 2)
- Y dangosfwrdd amrywiaeth diweddaraf (atodiad 3)
- Gwaith adnoddau heriol a allai ddeillio o'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (paragraff 2.4).

**CAM GWEITHREDU 1:** Diweddariad ar gydraddoldeb hiliol i'w ddarparu yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

## 4. Diweddariad ar Gyllid/y Gyllideb

4.1 Rhoddodd Andrew Jeffreys a Gawain Evans ddiweddariad i'r bwrdd ar statws presennol Cyllid a'r Gyllideb.

4.2 Adroddodd Gawain ar ragolygon alldro a a sefyllfa cronfeydd wrth gefn 2021-22 Llywodraeth Cymru ar 31 Hydref 2021 (mis 7) a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Rhagolygon refeniw
- Rhagolygon cyfalaf
- Y sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn

4.1 Rhoddodd Gawain yr wybodaeth ddiweddaraf am Gyfrifon Blynyddol Llywodraeth Cymru. Ddywedodd y byddai'r cyfrifon yn cael eu llofnodi ddiwedd mis Tachwedd 2021.

4.2 Rhoddodd Andrew Jeffreys grynodeb byr o oblygiadau'r Adolygiad o Wariant i Lywodraeth Cymru, y sefyllfa bresennol gyda phroses y Gyllideb a'r camau nesaf cyn i'r Gyllideb gael ei chyhoeddi ar 20 Rhagfyr 2021. Cyllideb Llywodraeth Cymru: Caiff papur Cabinet Dyraniadau a'r Camau Nesaf ei gyflwyno ddydd Llun, a fydd yn disgrifio'r setliad am y tro cyntaf. Gofynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod y Cyfarwyddwyr Anweithredol yn cael gwybod am ganlyniad y Cabinet.

**CAM GWEITHREDU 2:** Rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol am ganlyniad Cyllideb Llywodraeth Cymru: Papur Cabinet Dyraniadau a'r Camau Nesaf yn cael ei gyflwyno ddydd Llun.

## 5. Cyfnodau Dysgu Gweithio'n Glyfar

5.1 Cyflwynodd Natalie Pearson gyfres o sleidiau i'r Bwrdd ar weithredu'r Cyfnod Dysgu Clyfar, y profiad yn y chwe wythnos gyntaf a'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg. Roedd y sleidiau'n canolbwyntio ar:

- Datganiad ar Weithio'n Glyfar
- Llywodraethu'r cyfnod dysgu
- Cipolwg o sbrint un
- Ffyrdd presennol ac arfaethedig o weithio yn ôl gradd
- Materion a risgiau sy'n dod i'r amlwg
- Ffocws wedi'i gynllunio ar gyfer y sbrint nesaf.

5.2 Nododd y Bwrdd adroddiad sbrint ExCo ar Gyfnod Dysgu Gweithio'n Glyfar, gan gynnwys canfyddiadau ymchwil diweddar yr arolwg pwls. Croesawodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol y dull hwn a bu iddynt gymeradwyo'r egwyddorion gwaith diogel a phroffesiynol yn swyddfa Llywodraeth Cymru.

5.4 Trafododd y Bwrdd amseriad Strategaeth y Gweithle a dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol y câi ei drafod yn y Pwyllgor Gweithredol, ynghyd â sut y gallwn leihau ôl troed swyddfeydd.